**Beirniadaeth.**

**2il Emlyn – Roedd ei wyneb yn ddifynegiant**

Stori annwyl wedi'i hysgrifennu'n ofalus mewn Cymraeg naturiol a graenus. Roedd y stori wedi'i hadeiladu'n effeithiol gyda dirgelwch y bachgen bach 'a'r wyneb difynegiant' yn cynyddu trwy gydol y darn nes i ni gael yr eglurhad difyr ar y diwedd. Y syniad hyfryd yn y stori oedd bod y bachgen (sef ei ffrind dychmygol) yno i'w helpu pan oedd pethau'n anodd ac yn 'troi'r glaw yn heulwen.' Stori hyfryd.

Emlyn

# Roedd ei wyneb yn ddifynegiant

Safai Carol yn ei gwisg ysgol newydd sbon o flaen y drych. Syllodd hi ar ei phinaffor glas a'i sgidiau sgleiniog. Roedd hi'n poeni. "Beth os na fydd neb yn fy hoffi?" meddyliodd. "Beth os nai ddim ffitio mewn?". Tan rwan doedd symud ysgol ddim wedi bod yn poeni Carol o gwbwl, ond mwyaf sydyn wrth iddi roi ei gwisg ymlaen dyma ryw deimlad anifyr yn ei tharo fel mellten. "Carol fach, wyt ti'n barod eto, ti'm isho bod yn hwyr ar dy ddiwrnod cynta nagoes!?" Gwaeddodd Mam yn frysiog.

Eisteddodd Carol yng ngefn y car bach coch, roedd hi'n teimlo fel oes i gyrraedd yr ysgol.

Stopiodd y car yn frysiog, fe rewodd Carol fel delw, roedd yr holl beth yn anghysurus iawn. Syllodd hi'n syn ar yr holl ddisgyblion yn chwerthin yn hapus a cherdded ymysg ei gilydd. Breuddwydiai am fod yn ffrindiau pennaf gyda nhw. Camodd hi allan o'r car a rhoi cwtch meddal sydyn i'w Mam, cyn cerdded i gyfeiriad yr ysgol yn betrysgar.

"Brrrrrrrrrrrrrrrrrrrrr!" canodd y gloch yn swnllyd ac fe atseiniodd y sŵn ar draws y coridorau llawn.

Ymlwybrodd Carol yn syth at ei dosbarth newydd. Roedd dwsinau o lygaid yn syllu arni. "Reit te blant! Dyma Carol Llwyd, ac mi fydd hi yn ymuno a'n dosbarth ni o rwan ymlaen". Meddai Mrs Puw yn bendant. Eisteddodd Carol ar ben ei hun mewn cadair wag ym mlaen y dosbarth. Teimlodd yn andros o anghysurus.

Roedd hi bellach yn amser egwyl ac roedd y llinell snac yn ddi-ddiwedd. Cerddodd Carol ar ben ei hun rownd yr ysgol gan grwydro'r coridorau prysur. Yn sydyn daeth hi ar draws bachgen bach yn eistedd ar y llawr a'i wyneb yn ddifynegiant. Teimlai Carol dros y bachgen bach yma, felly heb feddwl dwywaith aeth ato i holi beth oedd yn bod. Ni ddywedodd unrhywbeth. Doedd Carol ddim yn siŵr iawn be i neud, ond cyn iddi allu meddwl yn glir… "Brrrrrrrrrrrrrrr!" canodd y gloch.

Mathemateg oedd nesaf i Carol – roedd hi'n ferch ddeallus iawn felly roedd pob un disgybl yn y dosbarth yn geg agored wrth iddi lwyddo i gael pob cwestiwn yn gywir, a rheini yn rhai anodd ofnadwy hefyd!

Roedd amser cinio yn rhyfedd iawn i Carol hefyd, ar ôl iddi orffen sbageti bolonês bendigedig, aeth am dro. Yn rhyfedd iawn wrth iddi basio'r un lle dyma hi'n gweld y bachgen eto yn eistedd ar y llawr yn y coridor. Ni wyddai Carol beth i neud am fod

y bachgen wedi ei hanwybyddu yn llwyr amser egwyl. Penderfynodd hi y buasai hi"n rhoi cynnig arall i weld beth oedd yn ei boeni gan ei fod mor welw.

“Wyt ti’n iawn” holodd hi. Ond unwaith eto, doedd dim ateb. Dal i edrych yn ddifynegiant wnaeth y bachgen.

“O, sa’m pwynt i ti drio cael un gair allan o’i geg, dydi o erioed wedi deud dim byd ers iddo ddod i’r ysgol ma” meddai ryw ddisgybl yn ddiflas wrth basio heibio. Dim ond gwenu yn siriol y gwnaeth Carol.

Er mai disgybl newydd oedd Carol, roedd ganddi deimlad rhyfedd ac rhywsut roedd hi’n meddwl fod y bachgen yn cuddio rhywbeth…

Aeth Carol adre ar y bws mawr, drewllyd y noson honno. Er bod y diwrnod wedi mynd yn iawn, roedd hi’n teimlo fel bod yna rywbeth ddim yn iawn. Edrychodd allan drwy’r ffenest fudur, gan weld plant yn rhedeg a chwffio’i gilydd wrth ymlwybro adref, yna dyma na deimlad oer, anghynnes yn mynd drwyddi. Fe welodd y bachgen bach hwnnw a oedd ar y coridor amser Egwyl ac amser cinio yn cerdded adref ar ben ei hun yn edrych yn swrth tuag at y llawr.Teimlai Carol yn siwr ei fod wedi ei weld o’r blaen, ond doedd hi methu’n lân a dod i ganlyniad pryd a lle!?

Wrth iddi fwya’i swper y noson honno doedd Carol methu’n fyw stopio meddwl am y bachgen. “ Sut oedd hi’n bosib i ruwyn ddod i’r ysgol bob dydd, a bod mor dawel a difynegiant yr holl amser? Roedd hi am holi ei Mam os oedd hi’n gwybod am unrhyw fechgyn swil yn yr ardal, ond fe benderfynodd hi beidio gan ei bod ond wedi symud i’r ardal ychydig cyn y Nadolig. Roedd hi hefyd eisiau ymddwyn fel ditectif er mwyn dod o hyd i gliwiau a gwybodaeth am y bachgen. A gan ei bod wedi darllen cannoedd o lyfrau ‘Dirgelwch y Chwyddwydr’ roedd hi’n gwybod fod pob ditectif da byth yn rhannu cyfrinachau tan ei bod wedi ei datrys.

***

Roedd wythnos wedi pasio a bellach roedd Carol wedi gwneud ambell ffrind newydd gan gynwys, Mabli, Neli a Gweni. Er, doedd hi ddim yn teimlo fel ei bod yn ffitio i mewn gyda nhw yn union. Ond, roedd hi yn hapus iawn fod hi wedi gwneud ffrindiau.

Bob amser cinio ac egwyl byddai Carol yn mynd heibio’r union le yr oedd y bachgen bach yn pan welodd hi o am y tro cyntaf. Roedd o dal yno. Yn eistedd ar y llawr a’i wyneb yn ddifynegiant bob dydd.

Roedd Carol wedi gwneud addewid a’i hun y byddai hi’n mynd i’w weld bob amser cinio ac egwyl yn ddi-ffael. Roedd ganddi biti mawr dros y bachgen.

***

Roedd mis wedi hedfan ac roedd Carol bellach yn eistedd wrth y bachgen bob amser cinio. Ac un diwrnod hollol arbennig, fe lwyddodd hi i gael y bachgen i siarad. “Carol ydw i” meddai “Beth ydi dy enw di?” Roedd gan Carol deimlad yn ei phen beth oedd ei enw, ond fe gafodd hi andros o sioc, pan ddywedodd mai “Emlyn” oedd ei enw mewn llais bach fel llygoden, gan ei bod hi wedi ei alw yn Emlyn yn ei phen ers y diwrnod cyntaf roddodd hi blaen ei throed yn yr ysgol.

“Sut mae enw fo ydi Emlyn?” meddyliodd. Roedd hi’n gwybod, ond doedd hi ddim yn disgwyl hynny chwaith rhywsut.

Bob dydd ffeindiodd Carol rwybeth newydd allan am Emlyn. Roedd o’n byw mewn fflat bach tua chwarter awr i ffwrdd o’r ysgol, roedd o’n berchen ar gath o’r enw Fflwff ac ei hoff fwyd oedd pitsa. Yn rhyfedd iawn roedd y pethau yma i gyd yn swnio’n gyfarwydd ofnadwy.

Er ei fod wedi dechrau dod allan o’i gragen gyda Carol erbyn hyn, nid oedd **byth** yn dangos unrhyw emosiwn o gwbwl ar ei wyneb.

***

Roedd Carol ac Emlyn yn ffrindiau pennaf bellach. Daeth Carol yn boblogaidd iawn yn yr ysgol hefyd, gan mae hi oedd y person cyntaf erioed i gael gair allan o geg Emlyn tra roedd yn yr ysgol.

Roedd pawb wedi ei syfrdannu yn fawr. Bellach doedd Emlyn a Carol ddim yn eistedd ar lawr y coridor, roeddent yn mynd i’r llyfrell rwan.

Roedd un peth dal ar feddwl Carol. “Pam fy mod i yn teimlo fel fy mod yn adnabod Emlyn?” meddyliodd. Roedd popeth roedd Emlyn yn ei ddweud yn swnio’n gyfarwydd.

Wrth i Carol syrthio’i gysgu un noson fe gafodd fflach sydyn. “Dwi wedi bod ar antur hefo Emlyn o’r blaen” meddyliodd yn syn. “Dwi’n cofio ei weld pan oeddwn yn iau.”

Roedd Carol wedi cael llond bol ar y digwyddiadau a’r cyd-ddigwyddiadau rhyfedd yn ddiweddar, felly dyma hi’n gofyn unwaith ac am byth wrth ei Mam.

“Mam, wyt ti’n adnabod rhuwyn o’r enw Emlyn” Edrychodd Mam yn syn ar Carol fel tasai hi newydd ofyn iddi os oedd hi’n adnabod Rapsgaliwn. “Carol fach” meddai “dwi ddim nagdw, ond mi wyt ti fy nghariad i” Roedd Carol wedi drysu’n lân. “Ti’m yn cofio Emlyn dy ffrind dychmygol pan oeddet yn iau?” Doedd Carol ddim yn gwybod beth i ddweud! O’r diwedd! Roedd popeth yn gwneud synnwyr!

Ffrind dychmygol iddi oedd Emlyn, a fo oedd yr un oedd bob amser yn helpu i droi glaw yn heulwen ac yn gwneud popeth yn well!

Felly, dyna pam fod wyneb Emlyn yn  ddifynegiant – gan mai ffrind dychmygol Carol a oedd wedi mynd ar goll yn y cof oedd o!

**Y Diwedd**